

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd 6 Gorffennaf, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.J. Griffiths (Cadeirydd); Cynghorydd N. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr Ms. J. Aviet, Mrs. J.E. Charles, O. Griffiths, Mrs. R. Nugent-Finn a J.W. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr N. Moore (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet Perfformiad ac Adnoddau), L. Burnett (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio), B.T. Gray (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd) a K.F. McCaffer (Aelod Cabinet dros Hamdden, y Celfyddydau a Diwylliant)

172 CYHOEDDIAD –

Cyn i fusnes y Pwyllgor ddechrau, darllenodd y Cadeirydd y datganiad canlynol: "Hoffwn atgoffa pawb sydd yma y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd a chaiff y recordiad hwn ei archifo i'w wyllo yn y dyfodol".

173 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd T.H. Jarvie.

174 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin, 2021 fel cofnod cywir.

175 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

176 ADRODDIAD DIOGELU CORFFORAETHOL BLYNYDDOL: 2020/21 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 7 Mehefin, 2021 gan Bennaeth Rheoli a Diogelu Adnoddau, yn nodi cyfrifoldeb corfforaethol y Cyngor i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion yr oedd angen gwasanaethau penodol y Cyngor arnynt. Rhoddodd Adroddiad Blynyddol 2020/21 drosolwg ar y gweithgareddau Diogelu Corfforaethol a gynhelir ar draws yr Awdurdod Lleol.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog a chwestiynau dilynol gan y Pwyllgor, dywedodd Swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol y canlynol:

- Asesid lefel y cymorth technegol a roddir i deuluoedd gymryd rhan mewn Cynadleddau Amddiffyn Plant rhithwir fesul achos a'i ddarparu pan fo angen. Bu'r broses o symud o gynadleddau wyneb yn wyneb i gynadleddau rhithwir oherwydd cyfyngiadau cymdeithasol a gyflwynwyd yn gyflym o ganlyniad i'r pandemig cenedlaethol yn broses ymgysylltu wahanol iawn ond yn un a oedd wedi parhau i wella'r profiad i deuluoedd, cyn, yn ystod ac yn dilyn cynhadledd. Parhaodd Gweithwyr Cymdeithasol i reoli disgwyliadau'r teulu cyn cynnal cynhadledd.
- Parhaodd rôl y Cadeirydd yn ystod Cynhadledd Amddiffyn Plant i fod yn annibynnol er mwyn sicrhau bod llais y plentyn/plant perthnasol yn cael ei glywed, bod yr iaith a ddefnyddid yn briodol i'r holl fynychwyr a bod pob parti yn deall pwysigrwydd y broses.
- Roedd y lefelau ymgysylltu ar gyfer Cynadleddau Amddiffyn Plant wedi gwella ers symud i lwyfannau rhithwir gan fod adborth yn awgrymu bod rhieni'n gweld y cynadleddau'n fwy cyfleus, yn haws mynd iddyn nhw, ac yn gyfforddus oherwydd eu bod yn gallu ymuno o'u cartrefi eu hunain. Byddai'r Cyngor yn parhau i asesu llwyddiant Cynadleddau Amddiffyn Plant rhithwir wrth symud ymlaen.
- O ran nifer gynyddol y plant a gofnodir fel plant sy'n wynebu risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio o dan un, neu fwy o'r pum categori risg, roedd achosion o gam-drin emosiynol ac esgeulustod yn dod yn fwy amlwg, ond roedd yn anodd nodi unrhyw batrymau penodol oherwydd bod y ffigurau'n amrywio yn unol â nifer gyffredinol y Plant sy'n Derbyn Gofal. Roedd llawer o waith traws-wasanaeth yn digwydd i gefnogi plant a'u teuluoedd.
- Mae'r ffigurau a nodir yn yr Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol mewn perthynas â nifer yr atgyfeiriadau a wnaed i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd am bryderon/honiadau o dan y weithdrefn diogelu yn erbyn ymarferwyr sy'n ymwneud ag unrhyw bersonau sy'n ymgymryd â rôl â chyfrifoldeb ac nid dim ond gweithwyr cymdeithasol. Roedd y broses ymchwilio drylwyr yn gyfrinachol ac yn cael ei rheoli gan dîm bach o unigolion ac asiantaethau trydydd parti a sicrhodd y gwrandewid ar bryderon yr unigolyn agored i niwed.
- Cydnabuwyd bod y broses ymchwilio yn gyfnod anodd i unigolion a gyhuddwyd ac yn anffodus, oherwydd diffyg tystiolaeth i ddod i gasgliad sy'n cadarnhau'r cyhuddiad neu'n ei ddatgan yn ddi-sail, mae 51 o'r achosion yn dal heb eu cadarnhau.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfyniadau'r Cabinet a'r trafodaethau yn y cyfarfod, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

(1) BOD y gwaith sydd wedi'i wneud i wella trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion, fel y nodir yn yr adroddiad, yn cael ei nodi.

(2) BOD y Pwyllgor yn parhau i dderbyn gwybodaeth bob chwe mis gan y Cabinet ar waith sy'n cael ei wneud i wella trefniadau Diogelu Corfforaethol ac effeithiolrwydd

polisiâu perthnasol.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1a2) Sicrhau bod y Pwyllgor yn ymwybodol o ddatblygiadau diweddar mewn trefniadau corfforaethol ar gyfer diogelu a'i fod yn goruchwyllo meysydd allweddol gweithio corfforaethol.

177 YMESTYN Y CONTRACT RHEOLI HAMDDEN (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 21 Mehefin, 2021.

Wedi hynny, ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfyniadau'r Cabinet a rhoi sylw i'r trafodaethau yn y cyfarfod, gwnaeth y Pwyllgor Craffu,

ARGYMHELLWYD – BOD cyfeiriad ac adroddiad y Cabinet yn cael eu nodi, a derbyn bod y mater yn cael ei ystyried ymhellach, ochr yn ochr ag adroddiad cysylltiedig Rhan II, yn ddiweddarach yn yr Agenda.

Rheswm dros yr argymhelliad

Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor ar gefndir y cynigion, fel yr ystyriwyd gan y Cabinet i ymestyn y Contract Rheoli Hamdden a chofio natur gyfrinachol y mater.

178 ADRODDIAD CYNTAF TEULUOEDD 2020-21 (CGC) –

Diben yr adroddiad oedd arfarnu Aelodau o ran cynnydd a gweithgarwch o fewn grant Llywodraeth Cymru a ddyrannwyd i gefnogi cyflawni Cynllun Teuluoedd yn Gyntaf 2020/21 ym Mro Morgannwg.

Arfarnodd Rheolwr Atal a Phartneriaethau Aelodau ar saith prosiect gwahanol o dan y Cynllun Teuluoedd yn Gyntaf yn ystod 2020-21:

1. FACT – a ddarperir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.
2. Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf (FFAL) a ddarperir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.
3. Ffocws ar Anabledd – a gyflwynir yn fewnol ac a gomisiynir yn allanol.
4. Rhianta – Gwasanaethau Cymdeithasol a ddarperir yn fewnol.
5. Lles Ieuencid – a ddarperir yn fewnol gan Addysg.
6. Gofalwyr Ifanc – a gomisiynir yn allanol; a
7. Chydlynu canolog – a ddarperir yn fewnol gan Addysg.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog a chwestiynau dilynol gan y Pwyllgor, dywedodd Swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol y canlynol:

- Cwblhaodd 78 o deuluoedd Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF) gyda chymorth gweithwyr cymorth Teuluoedd yn Cyflawni Newid Gyda'i Gilydd

(FACT), fodd bynnag, roedd nifer yr atgyfeiriadau a ddaeth at y gwasanaeth yn llawer uwch.

- Roedd atgyfeiriadau gan y Gwasanaethau Plant (lle nad oedd y rhain wedi bodloni'r trothwy ar gyfer ymyrraeth statudol neu os oedd angen gwasanaeth 'cam i lawr'), wedi aros yn uchel, gyda llawer o achosion yn parhau ar agor am rhwng 8 a 12 mis oherwydd anghenion cymhleth y teulu.
- Dim ond drwy Linell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf (FFAL) y gellid atgyfeirio i'r gwasanaeth Teuluoedd yn Cyflawni Newid Gyda'i Gilydd a gan weithiwr proffesiynol neu'r teulu ei hun. Roedd hyn yn sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu cynnig cyngor, cymorth a gwybodaeth ddigonol i gefnogi'r teulu mor gyflym a chywir â phosibl. Gallai hyn gynnwys cyfeirio at wasanaethau mwy priodol.
- Parhaodd Bwrdd Rheoli Teuluoedd yn Gyntaf i archwilio ffyrdd o gynyddu capasiti ym mhob Gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf.
- Enwyd Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf fel gwasanaeth penodol ac y tu allan i Ganolfan Alwadau Cyswllt Un Fro (C1V) y Cyngor.

ARGYMHELLWYD – BOD cynnwys Adroddiad Teuluoedd yn Gyntaf 2020/21 ac enghreifftiau o waith cadarnhaol a wnaed i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd ym Mro Morgannwg yn cael ei nodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod yn ymwneud â'r cynnydd cadarnhaol a wnaed o ran datblygu'r Gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf.

179 ADRODDIAD BLYNYDDOL TÎM CYMORTH I DEULUOEDD INTEGREDIG BRO MORGANNWG A CHAERDYDD 2020-21 (CGC) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried a chraffu ar Adroddiad Blynyddol 2020-21 ar gyfer Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd Bro Morgannwg a Chaerdydd cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ôl y gofyn. Yn Atodiad 1, darparodd yr adroddiad wybodaeth am effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir a thynnodd sylw at unrhyw heriau a effeithiai ar ddarparu'r gwasanaeth yn llwyddiannus gan gynnwys yr effaith sylweddol o ganlyniad i'r pandemig cenedlaethol.

Roedd Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn bartneriaeth rhwng Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gyda chyfrifoldeb statudol ar y cyd dros sicrhau darparu (Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd) yn eu rhanbarth. Nodwyd drwy gydol yr adroddiad fod y term Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd yn cyfeirio'n benodol at waith y Tîm ymarferwyr, yn hytrach na'r Gwasanaeth ehangach, y cyfeirir ato fel Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, a oedd yn cynnwys elfennau eraill a ariennid drwy'r Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog a chwestiynau dilynol gan y Pwyllgor, dywedodd Swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol y canlynol:

- Ar gyfer teuluoedd sydd angen cymorth ynghylch achosion o gamddefnyddio sylweddau, y llwybr atgyfeirio oedd drwy'r Uned Ddibyniaeth Gymunedol (CAU) a weithredir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cymru.
- Roedd atgyfeiriadau i'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd yn broses newidiol ac roedd yr adnoddau a oedd ar gael i'r tîm yn effeithio'n helaeth ar y niferoedd. Roedd y cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau 'dim lle' ar gyfer Bro Morgannwg yn rhannol gysylltiedig â'r pandemig cenedlaethol. Roedd atgyfeiriad 'Dim lle' yn atgyfeiriad a dderbyniwyd ac a ystyrid yn briodol ond, oherwydd bod yr holl staff eisoes yn gweithio gyda theuluoedd, bu'n rhaid ei gau. Casglwyd gwybodaeth am y teuluoedd hyn ar gyfer y Tîm Cefnogi Teuluoedd Integredig at ddibenion datblygiad, nodi bylchau mewn capasiti a rhoi gwybod bod llefydd atgyfeirio yn dod ar gael.
- Byddai angen dod o hyd i arian digonol i gynyddu capasiti o fewn y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, a oedd yn anodd iawn yn yr hinsawdd ariannol bresennol.
- O safbwynt adroddiad y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd, roedd gan Fro Morgannwg 23 o atgyfeiriadau 'dim lle'; fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am y cymorth a gâi'r 23 teulu hefyd gan wasanaethau eraill y Cyngor.

ARGYMHELLWYD –

- (1) BOD Adroddiad Blynyddol y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd 2020-21 yn cael ei nodi.
- (2) BOD y Pwyllgor yn parhau i dderbyn adroddiadau blynyddol, bob mis Gorffennaf, ar waith y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd.

Rheswm dros yr argymhelliad

(1a2) Caniatáu i Aelodau graffu ar waith y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd mewn perthynas â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

180 CAU CYFRIFON 2020/21 (CGC) –

Diben yr adroddiad oedd hysbysu'r Pwyllgor bod y cyfrifon wedi eu cwblhau ac am sefyllfa ariannol dros dro y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21.

Dywedodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Cyfrifeg:

- Byddai'r sefyllfa refeniw diwedd y flwyddyn yn amrywiant anffafriol o £113,000 ar ôl trosglwyddiad net i gronfeydd wrth gefn o £530,000.
- Roedd targed arbedion refeniw o £100,000 wedi'i bennu ar gyfer 2020/21 ac a gyflawnwyd.
- Bu gwariant cyfalaf o £2.595m yn ystod y flwyddyn.

ARGYMHELLIR - BOD y mesurau ariannol a gymerwyd ac a gynigiwyd ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, fel y nodir yn yr adroddiad, yn cael eu nodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

181 MONITRO REFENIW A CHYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 MAI 2021 (CGC) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Cyfrifeg yr adroddiad, a'i ddiben oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd sy'n gysylltiedig â refeniw gwariant cyfalaf ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill i 31 Mai, 2021.

Byddai'r sefyllfa refeniw ar gyfer 2021/22 yn heriol gyda'r pwysau parhaus ar y gwasanaeth yn weithredol ac yn ariannol oherwydd pandemig COVID-19. Byddai hyn yn effeithio ar y ddau oherwydd gwariant ychwanegol ond hefyd oherwydd colli incwm. Roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i ymdrin â rhai o'r materion.

Roedd targed arbedion ar gyfer y flwyddyn wedi'i osod yn £79,000.

Roedd y gyllideb gyfalaf a gymeradwywyd ar hyn o bryd wedi'i phennu ar £4.235m.

ARGYMHELLWYD – BOD y sefyllfa o ran cyllidebau refeniw a chyfalaf 2021/22 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mai 2021 yn cael ei nodi.

Rheswm dros yr argymhelliad

O ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod ynglŷn a'r alldro a amcanestynnir ar gyfer 2021/22.

182 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2020-2021 – FERSIWN HER (CGC) –

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol ei adroddiad, a'i ddiben oedd sicrhau bod Aelodau Etholedig yn cyfrannu at y broses herio ac yn cytuno ar flaenoriaethau'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Roedd fersiwn her adroddiad y Cyfarwyddwr yn rhoi cyfle i aelodau a rhanddeiliaid wneud sylwadau a fyddai'n sail wybodaeth ar gyfer drafft terfynol yn y dyfodol a fyddai'n cael ei ystyried gan y Cabinet.

Croesawodd y Pwyllgor y defnydd o SWAY i gyflwyno adroddiad haws ei ddarllen a phasiodd eu diolch diffuant a'u hedmygedd i holl Staff y Gwasanaethau Cymdeithasol am eu gwaith caled parhaus mewn cyfnod sydd wedi bod ac a fydd yn parhau i fod yn anodd.

ARGYMHELLWYD –

- (1) BOD cynnwys adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2020-21 – Fersiwn Her (SWAY) yn cael ei nodi.
- (2) BOD blaenoriaethau gwella 2021/22 ar gyfer y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, fel y nodir yn adroddiad y Fersiwn Her, yn cael eu cymeradwyo.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1a2) Rhoi cyfle i Aelodau Etholedig gyfrannu at y broses herio ar gyfer Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr 2020-2021.

183 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLENWI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 4 2020/21 (CGC) –

Diben yr adroddiad oedd cyflwyno canlyniadau perfformiad chwarter 4 ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2020 i 31 Mawrth 2021 wrth gyflawni ymrwymadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

ARGYMHELLWYD –

- (1) NODI'R canlyniadau perfformiad a chynnydd tuag at gyflawni ymrwymadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 fel y bônt yn alinio ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gwaith Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol.
- (2) NODI'R camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o dan-berfformiad ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd yng nghylch gwaith Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol.
- (3) NODI'R cynnydd sy'n cael ei wneud drwy Strategaeth Adfer y Cyngor mewn ymateb i bandemig parhaus y Coronafeirws.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2020/21 gyda'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.
- (2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i sicrhau gwelliant parhaus a amlinellir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ac adlewyrchu gofyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ei fod yn gwneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni'r nodau llesiant i Gymru.
- (3) Sicrhau bod aelodau'n goruchwyllo'r materion adfer sy'n effeithio ar waith y Cyngor a'u Pwyllgorau Craffu perthnasol.

184 ARGYMHELLIAD CRAFFU CHWARTER 1AF OLRHAIN 2021/22 AC AMSERLEN RHAGLEN WAITH YMLAEN Y PWYLLGOR WEDI'I DIWEDDARU 2021/22 (RG) –

Diben yr adroddiad oedd adrodd ar y cynnydd yn sgil yr argymhellion Craffu ac ystyried y Flaenraglen Waith ddiweddar ynghyd ag unrhyw lithriad ar gyfer 2021/22.

Dywedodd y Cadeirydd fod system tracio argymhellion y Pwyllgor yn gyfredol a bod yr holl bwyntiau wedi'u labelu fel wedi'u cwblhau a'r holl adroddiadau a ddisgwylir yn ystod Chwarter 1 wedi dod i law; ac felly nad oedd unrhyw lithriad i'w adrodd.

ARGYMHELLWYD –

- (1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A yr adroddiad.
- (2) CYMERADWYO Blaenraglen Waith Flynyddol ddiweddaraf y pwyllgor sydd wedi ei hatodi yn Atodiad B'r adroddiad a'i huwchlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Parhau i dracio argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.
- (2) I'w hystyried ac er gwybodaeth.

185 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol y Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

186 YMESTYN Y CONTRACT RHEOLI HAMDDEN (CYF) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12 a 14) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 21 Mehefin, 2021 gan y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Cymdogaeth, Byw'n Iach a Pherfformiad.

Dywedodd adroddiad y Cabinet a'r cyfeiriad dilynol fod y Contract Rheoli Hamdden presennol wedi dechrau ar 1 Awst, 2012 am gyfnod cychwynnol o 10 mlynedd ond gellid estyn y cyfnod gan 5 mlynedd arall pe bai'r ddau barti yn dderbyniol.

Cytunwyd ar yr estyniad 5 mlynedd mewn egwyddor pan darodd pandemig Covid-19, gan achosi cryn darfu ar y Canolfannau Hamdden, a newidiodd hyn fethodoleg gyflawni ac amgylchiadau ariannol y contract gwreiddiol.

Bu trafodaethau pellach ers hynny gan fod yr amser sydd ar ôl ar y contract gwreiddiol bellach yn brin, ac roedd angen rhoi trefniadau ar waith i ddiogelu dyfodol y gwasanaeth. Cynhaliwyd modelu ariannol o wahanol opsiynau a oedd ar gael i'r

Cyngor a gofynnwyd am gyngor gan yr ymgynghorwyr gynghorodd y Cyngor yn wreiddiol ar y contract yn 2012. Roedd y cyngor hwn wedi dangos, hyd yn oed gyda'r newidiadau yn yr amgylchiadau ariannol, mai'r opsiwn gorau o bell ffordd i'r Cyngor oedd estyn y contract ac y byddai estyniad hirach na 5 mlynedd y dull masnachol gorau posibl.

Cynigiwyd estyn y contract am gyfnod o 7 mlynedd a 5 mis a oedd yn caniatáu i'r Cyngor a'r Contractwr wneud yn iawn am yr amser a gollwyd oherwydd y pandemig. Rhoddwyd prydlesi'r cyfleusterau Canolfan Hamdden i'r Contractwr am gyfnod o 15 mlynedd o 1 Awst, 2012. Byddai angen ymrwmo i brydlesi refersiynol ar gyfer y cyfleusterau Canolfan Hamdden i gwmpasu 2 flynedd ychwanegol y contract. Oherwydd sensitifrwydd masnachol y wybodaeth ariannol dan sylw, ystyriwyd y mater hwn yn gyfrinachol o dan Ran II.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, penderfyniadau'r Cabinet a'r trafodaethau yn y cyfarfod, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD –

- (1) BOD y sefyllfa bresennol o ran trafodaethau ymestyn contract y Ganolfan Hamdden, fel y cyfeiriwyd gan y Cabinet ar 21 Mehefin 2021, yn cael ei nodi.
- (2) BOD Penderfyniadau Cabinet (2), (3), (4) a (6), o gyfarfod 21 Mehefin, fel y cyfeiriwyd atynt, yn cael eu cymeradwyo.

Rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Rhoi'r wybodaeth gefndirol i'r Pwyllgor am y cynigion.
- (2) I'r Pwyllgor ystyried yr ymestyniad arfaethedig i'r contract cyn penderfyniad terfynol gan y Cabinet.